# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Parkland Place**

**100 Llanelian Road**
**Hen Golwyn**
**Bae Colwyn**
**LL29 9UH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/07/2024

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Parkland Place

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Adferiad Recovery |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Mai 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth adsefydlu therapiwtig i bobl  sy'n byw gyda dibyniaethau. Mae hwn yn gyfleuster preswyl byr dymor gyda graddau llwyddo uchel. Mae ein canfyddiadau yn dda; dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt brofiadau cadarnhaol. Mae'r staff gofal yn arbenigwyr yn y maes hwn ac yn hwyluso sawl sesiwn therapiwtig mewnol i alluogi unigolion i oresgyn dibyniaethau. Mae'r tîm rheoli'n sicrhau bod cynnydd y bobl yn cael ei oruchwylio'n effeithiol a'r gwasanaeth a ddarperir. Rhoddir ystyriaeth i anghenion o ran iaith a diwylliant y bobl a chânt eu diwallu lle bo'n bosibl. Gwelsom sawl archwiliad sy'n cael eu cynnal yn aml fel proses barhaus i fonitro effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae cogydd ar y safle, sy'n paratoi dewisiadau prydau iach a maethlon. Mae'r gwasanaeth yn cynnig awyrgylch hamddenol, mewn amgylchedd moethus. Mae hyn yn hybu llesiant ac agwedd gadarnhaol, sy'n hanfodol i gynnydd ac adferiad unigol y bobl. Mae'r gerddi mawr yn galluogi'r bobl i ymlacio a cherdded o amgylch y tir. Gwelsom y bobl yn gwneud hyn, gyda'i gilydd mewn grwpiau bach.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth a chânt ddewis eu trefn o ddydd i ddydd pan fyddant yn aros yn y gwasanaeth. Cynigir amrywiaeth o sesiynau therapiwtig, a gall y bobl ddewis pa sesiynau i'w mynychu.  Gwelsom y bobl yn aros i fynd i'r sesiynau a gynigir ar y diwrnod y gwnaethom ymweld â'r gwasanaeth. Mae'r cynlluniau personol yn dangos bod cynnydd y bobl yn cael ei fonitro, ac mae'r cofnodion yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ystod eu harhosiad byr dymor. Mae'r staff gofal yn rhoi dewis o brydau maethlon i'r bobl ac nid oes amser bwyd penodol. Mae'r tîm rheoli ar gael ac yn hawdd mynd ato, ac yn hybu dull cynhwysol drwy gasglu safbwyntiau a barn y bobl drwy gydol eu harhosiad. Gwelsom y bobl yn eistedd, yn sgwrsio ac yn cerdded ar y tir helaeth sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae llesiant corfforol a meddyliol y bobl yn ganolog i'r gwaith o gynllunio eu harhosiad. Caiff eu llesiant a'u cynnydd eu monitro a'u cofnodi. Caiff y bobl eu hannog i fyfyrio ar unrhyw faterion a allai fod yn effeithio ar eu hiechyd meddwl. Mae'r staff gofal, sy'n therapyddion wedi'u hyfforddi, yn tywys ac yn cynorthwyo'r bobl i gael y cymorth a'r sesiynau therapiwtig cywir yn ystod eu harhosiad. Maent hefyd yn hwyluso sesiynau therapi grŵp, sy'n galluogi'r bobl i archwilio eu teimladau mewn amgylchedd diogel. Cawsom olwg ar siartiau troi sydd wedi cofnodi teimladau a syniadau'r bobl yn ystod sesiynau therapiwtig. Mae'r rhain yn dangos y trafodaethau a'r syniadau manwl a rennir yn ystod y sesiynau. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i roi meddyginiaeth. Caiff y bobl eu hannog i fanteisio ar eu hamgylchedd drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ac ymarfer corff.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae dulliau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn poeni am rywun. Caiff asesiadau trylwyr eu cynnal cyn i'r bobl gyrraedd y gwasanaeth, sy'n golygu y gellir rhoi asesiadau risg a mesurau priodol ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y bobl yn ystod eu harhosiad. Mae'r tîm rheoli'n cefnogi ac yn arwain y staff gofal yn briodol ac maent yn cael hyfforddiant ychwanegol sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r darparwr wedi sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff gofal, gan gynnwys diogelu. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn ategu'r hyfforddiant y mae'r staff yn ei gwblhau. Cynhelir nifer o archwiliadau yn wythnosol, yn fisol ac yn flynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau ar ddiogelwch a risgiau i'r amgylchedd, i sicrhau diogelwch y bobl.

Mae Parkland Place yn hen adeilad mawr, gyda gerddi helaeth i'r bobl dreulio amser ynddynt wrth iddynt ddechrau adfer.  Mae'r ystafelloedd yn olau, yn lân ac wedi'u haddurno'n chwaethus. Gall y bobl fwynhau cysur, gyda gwelyau dwbl, mynediad i'r rhyngrwyd, llyfrau a setiau teledu, drwy gydol eu harhosiad.  Mae gan yr ystafelloedd gwely olygfeydd hardd o'r ardd, ac mae gan rai ohonynt seddi ffenestri. Ceir ardaloedd cymunedol amrywiol, gan gynnwys llyfrgell, ystafell fwyta ac ystafelloedd byw, lle gall y bobl ddewis ble a sut i dreulio eu diwrnod. Ceir ardal o fewn yr ystafell fwyta, lle gall y bobl baratoi eu diodydd eu hunain a helpu eu hunain i fyrbrydau iach a danteithion gan gynnwys cacennau â ffrwythau. Gwelsom fod y bobl yn fodlon ac yn hapus yn eu hamgylchedd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl y safonau gofal a chymorth sydd eu hangen arnynt drwy wasanaeth sydd wedi'i gynllunio drwy ymgynghori â'r unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn ystyried dymuniadau personol, dyheadau a chanlyniadau dymunol y bobl yn ogystal ag unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol wrth ddylunio eu gofal a'u cymorth. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth a therapi i bobl â phroblemau dibyniaeth. Mae'r cynlluniau personol a welsom yn fanwl, ac yn dangos asesiad trylwyr o gefndir, iaith a diwylliant, cryfderau, gwendidau, sefyllfa bresennol a hanes yr unigolyn. Caiff meysydd lle gallai'r bobl fod yn agored i niwed ynddynt eu cofnodi yn yr asesiadau risg. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd fel iechyd meddwl, sefyllfa deuluol, ac unrhyw risgiau sylweddol eraill. Caiff y bobl eu cynnwys ym mhob agwedd ar y broses hon o gasglu gwybodaeth, gan sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff eu hanghenion eu hadolygu'n fuan ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r gwasanaeth. Mae sampl o'r cofnodion gofal a welsom yn cynnwys amserlenni therapiwtig a gweithgareddau unigol i'r bobl eu dilyn drwy gydol eu harhosiad. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael dewis p'un a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ai peidio. Gwelsom fod y staff gofal yn gynhwysol, yn ddiddorol ac yn llawn anogaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae darparwr y gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r cofnodlyfr i ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd y gwasanaeth. Gellir dod o hyd i hylif diheintio dwylo mewn sawl lle o amgylch yr adeilad. Sgôr hylendid y gegin yw pump, sef y sgôr uchaf y gellir ei chyflawni. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn cael eu monitro ac mae'r cyfarpar ynddynt yn briodol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar arferion hylendid ac yn dilyn y canllawiau cyfredol wrth ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol. Mae'r rhestrau gwirio monitro yn dangos bod y staff domestig yn dilyn amserlenni glanhau dyddiol trylwyr. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y cartref yn cynnal lefelau hylendid da. Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac mae'r archwiliadau diweddar o'r trefniadau rheoli risg hylendid a heintiau yn dangos hyn.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod systemau rheoli meddyginiaethau diogel ar waith. Caiff y bobl eu hannog i helpu'r staff gofal gyda'r broses o roi meddyginiaethau. Gwelsom arwyddion sy'n atgoffa'r bobl i roi gwybod i'r staff os bydd angen iddynt ychwanegu at eu presgripsiwn presennol. Gwelsom fod cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir. Cynhelir archwiliad o'r trefniadau rhoi meddyginiaeth bob wythnos a phob mis ac yn ystod sesiynau goruchwylio'r staff. Mae cofnodion goruchwylio'r staff yn dangos bod trafodaethau'n cael eu cynnal am feddyginiaeth ac unrhyw ddiweddariadau ar y broses hon. Mae cyfrifiadau meddyginiaeth wythnosol yn helpu i sicrhau nad oes gwallau. Mae'r meddyginiaethau'n cael eu storio a'u rhoi'n ddiogel. Mae tymereddau'r stordy a'r oergell yn gywir, wedi'u cofnodi a'u monitro. Mae'r tîm rheoli'n awyddus i sicrhau gwelliannau parhaus drwy'r archwiliadau rheolaidd hyn, sy'n monitro'r broses o roi meddyginiaethau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae darparwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd â chyfleusterau a chyfarpar i gyflawni canlyniadau personol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i leoli mewn plasty, sydd wedi cael ei adnewyddu a'i addasu i safon uchel iawn. Mae'r adeilad moethus hwn ymhell o olwg y cyhoedd ac mae ganddo ardd enfawr. Mae'r ystafelloedd gwely yn lân, yn olau ac yn fodern, gyda ffenestri enfawr sy'n darparu golau naturiol a golygfeydd hardd o'r gerddi. Mae'r ystafelloedd cymunedol hefyd yn cynnig ffordd i hamddena, yn agored ac yn olau. Gwelsom y bobl yn eistedd dan do ac yn yr awyr agored, yn y gerddi. Ceir cyfleusterau, lle gall y bobl helpu eu hunain i frecwast, byrbrydau a diodydd. Mae'r ardaloedd eistedd yn yr awyr agored ar y tir, yn cynnig digon o le i fwynhau amser tawel neu i gymdeithasu ag eraill. Ceir lawntiau enfawr gyda llefydd i eistedd, ardal farbeciw a rhandiroedd llysiau, os bydd y bobl yn awyddus i arddio. Mae cynlluniau i adeiladu campfa ar y lawnt flaen, lle roedd yr heuldy yn arfer bod. Gwelsom fod y sylfeini wedi'u gosod, yn barod ar gyfer y gwaith adeiladu.

Mae'r darparwr yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom sampl o archwiliadau, sy'n cael eu cynnal ar yr adeilad a'r tir. Caiff cofnodlyfr cynnal a chadw ei gadw o'r gwaith atgyweirio gofynnol; mae'r unigolyn cynnal a chadw yn monitro hwn ac yn llofnodi pob tasg a gwaith atgyweirio sydd wedi cael eu cwblhau. Caiff archwiliadau amgylcheddol eu monitro a'u cwblhau'n rheolaidd i sicrhau diogelwch yr amgylchedd. Cawsom olwg ar y cofnodlyfr ar gyfer monitro gosodiadau trydanol, profion cyfarpar trydanol, diogelwch tymheredd dŵr gan gynnwys profion ar gyfer risgiau legionella, a gwres. Caiff cyfarpar tân, goleuadau argyfwng, system chwistrelli ac arwyddion allanfa dân eu profi a'u monitro hefyd yn unol â'r rheoliad. Darperir hyfforddiant diogelwch tân i'r holl staff. Mae cynllun gwagio'r adeilad yn hygyrch ym mhob ystafell, o fewn y pecyn gwybodaeth ac wrth fynedfa'r gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth, a sicrhau bod gofal o ansawdd da yn cael ei ddarparu. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd i annog cyfathrebu, cynllunio a diweddariadau effeithiol yn y gwasanaeth. Ceir archwiliadau rheolaidd a pharhaus, gan gynnwys archwiliadau rheoli risg, cwynion, hyfforddiant a ffeiliau achos. Caiff canfyddiadau'r holl archwiliadau eu casglu a'u rhannu â'r unigolyn cyfrifol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i gynnal archwiliadau a monitro cynlluniau gwella parhaus ar gyfer agweddau amrywiol ar y gwasanaeth. Gwelsom yr adroddiad chwarterol o'i ganfyddiadau sy'n llywio cynlluniau gwella a monitro'r gwasanaeth, sy'n sicrhau ansawdd trefniadau monitro parhaus, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â datganiad o ddiben y gwasanaeth. Gwelsom fod proses sicrhau ansawdd y gwasanaeth yn gadarn ac yn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol yn ystod eu harhosiad am gyfnod penodol yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol i alluogi'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom y bobl yn derbyn ymgynghoriad, arweiniad a chymorth parhaus gan y staff gofal. Caiff y bobl eu cefnogi gan yr un staff drwy gydol eu harhosiad. Gwelsom y bobl yn cyrraedd y gwasanaeth a'u trafodaethau a'u trefniadau mewn perthynas â dyrannu staff. Mae rotas y staff yn dangos lefelau staffio digonol. Mae'r lefelau staffio digonol yn galluogi'r bobl i gael gwasanaeth sy'n darparu therapi un i un a therapi grŵp. Mae'r tîm o staff yn cynnwys gweinyddydd, rheolwr, gweithiwr cadw tŷ, unigolyn cynnal a chadw a chogydd. Mae tri aelod o staff gofal bob amser ar gael yn ddyddiol. Mae ffeiliau'r staff gofal yn dangos eu bod yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n dda. Cynhelir sesiynau goruchwylio ffurfiol yn rheolaidd. Mae yna *"academi hyfforddi staff"*, sy'n darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant ar bynciau perthnasol. Mae'r cyfle hwn yn galluogi ac yn annog y staff i wneud cynnydd ac i ddatblygu mwy o arbenigedd yn eu gwaith. Gwelsom fod y staff gofal yn hyderus ac yn llawn anogaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, hyfforddiant a gwybodaeth dda. Mae gallu a sgiliau'r tîm o staff yn hanfodol i'r bobl gyflawni eu canlyniadau a gynlluniwyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r darparwr gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol a buddsoddiad yn y gwasanaeth er mwyn iddo fod yn ariannol gynaliadwy ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel a chyflawni eu canlyniadau personol. Mae buddsoddiad y darparwr yn y staff a'r hyfforddiant yn dangos ymrwymiad i ddatblygiad a llwyddiant y gwasanaeth a'i ddarpariaeth therapiwtig fewnol. Mae'r darparwr wedi ehangu'r gwasanaeth fel ei fod yn gallu cynnig therapi i helpu gydag amrywiaeth ehangach o ddibyniaethau, gan gynnwys gamblo. Bydd y datblygu a'r cynllunio sydd ar waith ar gyfer y gampfa newydd yn yr ardd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi